END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU

RHWYDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

Cynghrair o fudiadau'n gweithio i ddileu tlodi plant yng Nghymru

Ar Ddiwrnod Rhyngwladol Dileu Tlodi Plant (17 Hydref 2008) mae cynghrair Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru yn adnewyddu ei alwad am weithredu Argymhelliad 3 a amlinellir yn y papur gwybodaeth '**Cost Addysg'** sef:

"Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal astudiaeth ar ddichonoldeb cyflwyno gwasanaeth prydau ysgol am ddim i bawb ar gyfer pob disgybl ysgol ym mhob rhan o Gymru, gan nodi cyfraniad sefydliadau blaenllaw ar dlodi plant, Cyngor Dinas Hull a'r ymgynghoriad diweddar ar y Mesur Prydau Ysgol am Ddim yn yr Alban."

Roedd y cynnig uchod yn un o 8 argymhelliad a gyfeiriwyd at Lywodraeth y Cynulliad a/neu ysgolion ac ers hynny bu'n rhan o'n gwaith lobio parhaus yn dilyn cyhoeddi papur gwybodaeth **'Cost Addysg'** ar Ddiwrnod Tlodi Plant 2006. Roedd y papur hwn yn canolbwyntio ar y 'costau ychwanegol' ar gyfer teuluoedd a phlant sy'n mynychu addysg wladol, yn neilltuol ar gyfer cost gwisg ysgol, tripiau ysgol a chostau ychwanegol y cwricwlwm a oedd yn achosi caledi gwirioneddol, ac yn wir yn dal i wneud hynny, i deuluoedd incwm isel. Un o nodweddion allweddol y papur hwn oedd tynnu sylw at gost prydau ysgol i deuluoedd nad ydynt un ai yn gymwys ar gyfer, neu nad ydynt yn defnyddio eu hawl i ddarpariaeth prydau ysgol am ddim.

Y rhesymeg am adnewyddu'r galwad hwn yw tynnu sylw at y cynnydd a fu ar lefel genedlaethol yn yr Alban ac yn Lloegr, a hefyd ar lefel leol ers cyhoeddi ein hadroddiad. Mae'r cynnydd hwn yn adeiladu ar y casgliadau cadarnhaol o'r gwerthusiad o'r cynllun peilot ar brydau ysgol a gychwynnwyd gan Gyngor Dinas Hull. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r cynllun hwnnw yn gynharach eleni. Gyda hyn fel sylfaen tystiolaeth a datblygiadau cenedlaethol ar lefel y Deyrnas Unedig yr adnewyddwn ein galwad i Lywodraeth Cynulliad Cymru gymryd camau cadarnhaol i alluogi plant mewn teuluoedd incwm isel i ddefnyddio eu hawl i gael prydau ysgol a hefyd i helpu mynd i'r afael â'r stigma sy'n aml yn gysylltiedig â'r meini prawf modd presennol sy'n gwahaniaethu rhwng plant ar gyfer cael manteision prydau ysgol am ddim.

Safbwynt Cenedlaethol

Lloegr

Ym mis Medi 2008, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig gynllun £20 miliwn i bob plentyn ysgol gynradd fod â hawl i bryd ysgol iach am ddim drwy gynllun peilot dwy flynedd mewn tair ardal awdurdod lleol amddifadus yn Lloegr. Wedi'i gysylltu'n eglur â rhaglen y Llywodraeth i gynyddu ansawdd a safonau maeth prydau ysgol, a gwella ymddygiad a chyrhaeddiad ysgol, roedd y cynllun hwn yn ymateb i ddata a ddywedodd mai dim ond 43.6% o blant ysgol gynradd ar hyn o bryd oedd yn eistedd i lawr yn yr ysgol ar gyfer pryd wedi'i goginio. Fel yr eglurodd y cyhoeddiad, roedd y rhesymau am beidio cymryd cinio yn yr ysgol yn amrywio ond, i lawer o deuluoedd, yn neilltuol i deuluoedd incwm isel, y gost yw'r rheswm. Mae un pryd ysgol yn costio £1.66. Ar hyn o bryd, ar gyfer teulu gyda mwy nag un plentyn o oedran ysgol, gall hyn fod yn gyfanswm o £16.60 (2 o blant) neu £24.90 (3 o blant) bob

wythnos 5 diwrnod. Dros gyfnod o bedair wythnos, gall hyn fod yn gymaint â £99.60 i deulu gyda 3 o blant, swm sylweddol i deuluoedd ar incwm isel.

Cydnabu Alan Johnson, Ysgrifennydd Iechyd Llywodraeth y Deyrnas Unedig *"Cinio ysgol yw'r unig bryd poeth ac iach y mae llawer o blant o gefndir tlotach yn ei gael mewn diwrnod, felly mae angen i ni ymchwilio sut i gynyddu'r nifer sy'n cael cinio ysgol*." Dywedodd Ed Balls, Ysgrifennydd Gwladol Plant: *"Rydyn ni eisiau cinio iach yn yr ysgol i bob plentyn, nid dim ond i rai a rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr fod plant, yn neilltuol blant o gefndiroedd amddifadus sydd fwyaf ei angen, yn cael pryd poeth am ddim bob diwrnod ysgol."*

Bydd y cynllun peilot yn rhedeg i ddechrau am ddwy flynedd yn dechrau ym mis Medi 2009, gyda'r opsiwn o'i ehangu i drydedd flwyddyn. Cynhelir gwerthusiad ar y cynllun.

Yr Alban
Ym mis Hydref 2008, cyhoeddodd Gweinidogion yr Alban gynlluniau ar gyfer pob plentyn yn yr Alban yn nhair blynedd gyntaf addysg gynradd i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn dilyn gwerthusiad llwyddiannus cynllun peilot cynharach a dderbyniodd £5m gan y Llywodraeth. Yn y cynllun hwnnw, a redodd rhwng mis Hydref 2007 a mis Mehefin 2008, rhoddodd Llywodraeth yr Alban gyllid i bum awdurdod lleol mewn ardaloedd amddifadus i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob disgybl blwyddyn 1 i 3 mewn ysgolion cynradd. Yn ystod cyfnod y cynllun, cynyddodd y gyfran gyffredinol o blant 5 i 7 oed yn bwyta cinio ysgol o 53% i 75%, a gwelwyd cynnydd sylweddol yn y 5 ardal. O fewn y grŵp targed hwn o ddisgyblion blwyddyn 1 i 3 ysgolion cynradd nad oedd wedi cofrestru am brydau ysgol am ddim, cynyddodd y defnydd o 41% i 69%.

Dywedodd yr astudiaeth werthuso annibynnol hefyd:

- Bod plant yn cael cyfle i roi cynnig ar fwydydd newydd ac iachach fel rhan o'u ciniawau ysgol
- Bod rhai plant yn gofyn am fwydydd gwahanol ac iachach adref
- Bod rhieni yn dweud eu bod yn siarad yn amlach am fwyd gyda'u plant
- Bod athrawon, arlwywyr, rhieni a staff awdurdodau lleol oll yn rhoi sylwadau cadarnhaol am y cynllun.

Wrth bontio'r bwlch gyda'r agenda blynyddoedd cynnar a'r ymgyrch tuag at fwyta iachach, dywedodd Fiona Hyslop, gweinidog addysg yr Alban: *"Mae'r llywodraeth hon wedi'i gwneud hi'n flaenoriaeth i helpu plant yn eu blynyddoedd cynnar a dyna'n union y mae'r cynllun hwn yn ei wneud, gan roi pryd ysgol am ddim i bob plentyn yn eu blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol gynradd."* Aeth y Gweinidog rhagddi i bwysleisio, *"Bydd rhieni hefyd yn teimlo'r fantais yn ystod yr amserau ariannol anodd hyn."*

Cyn y cynllun peilot, roedd pob awdurdod lleol wedi cytuno i weithredu'r prosiect o fis Awst 2010 os oedd yn profi'n llwyddiannus. Er y lleisiwyd pryderon am y diffyg cyllid gan y Llywodraeth i gefnogi ymestyn y cynllun, mae ymgyrchwyr lleol yn ystyried fod yr ymrwymiad cenedlaethol yn gam cadarnhaol ymlaen ar gyfer sicrhau y galluogir pob plentyn, beth bynnag yw amgylchiadau ariannol eu teulu, i gael mynediad i bryd iach yn yr ysgol.

Yng Nghymru
Yng Nghymru, cyflwynwyd Brecwast Ysgol am Ddim yn 2004 ac mae'n ddarpariaeth i bawb yn yr ysgolion hynny yng Nghymru sy'n dymuno cymryd rhan. Y rhaglen Blas am Oes yw ymgyrch Llywodraeth y Cynulliad i gynyddu safonau maeth prydau a diodydd ysgol, ac i annog bwyta'n iach. Yn ddiweddar hefyd cyhoeddodd pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ganfyddiadau o'r ymgynghoriad ar Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) sy'n amlinellu cynigion a syniadau pellach yn y maes hwn. Mae'n werth nodi y codwyd y cysyniad

o brydau ysgol am ddim i bawb yn ystod yr ymgynghoriad, gyda'r adroddiad yn cydnabod datblygiadau yn yr Alban gan ddatgan: *'….medrai fod yn fwy addas i ystyried prydau ysgol am ddim pan fo mwy o dystiolaeth ar gael i seilio'r penderfyniad arno."* (td. 34, Pwynt 164)

Safbwyntiau Lleol

Cyngor Dinas Hull

Ym mis Mai 2004, cyflwynodd Cyngor Dinas Hull gynllun oedd yn torri tir newydd drwy alluogi pob plentyn ysgol gynradd yn ardal yr awdurdod lleol i fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Yn y 2 flynedd y cynhaliwyd y prosiect, bu'r nifer oedd yn manteisio ar brydau ysgol bron â dyblu o 36% i 64%, gyda'r gwerthusiad annibynnol hefyd yn cofnodi gwell lefelau canolbwyntio ymysg disgyblion a mwy o barodrwydd i ddysgu. Rhoddodd y gwerthusiad achos cryf o'r canlyniadau cadarnhaol i'r ysgol gyfan ac nid yn unig y plant o'r cefndir tlotaf. Roedd hefyd yn trin y problemau gyda meini prawf cul presennol y budd prydau ysgol am ddim sy'n parhau i eithrio nifer fawr o blant mewn teuluoedd a gaiff eu cydnabod yn swyddogol fel bod mewn tlodi.

Cyngor Dinas Lerpwl

Mae Cyngor Dinas Lerpwl wrthi'n ystyried dichonoldeb darparu pryd ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd, mewn cysylltiad â'r ymddiriedolaeth gofal sylfaenol lleol. Os y'i gweithredir, medrai'r cynllun fod o fudd i 26,000 o blant rhwng 4 ac 11 oed yn un o ardaloedd awdurdod lleol mwyaf amddifadus Cymru. Mae astudiaeth o'r cynnig wedi dechrau a bydd yn adrodd ar ei ganfyddiadau yn ddiweddarach eleni.

Datblygiadau eraill i'w nodi

Yn ogystal â'r gefnogaeth y mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru yn ei roi i find i'r afael â'r materion yn ymwneud â phrydau ysgol am ddim, bu nifer o gyrff eraill nodedig hefyd yn lobio am brydau ysgol am ddim yng Nghymru. Ym mis Awst 2008, galwodd yr undeb mwyaf - y GMB, am ymestyn prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd fel modd o ddarparu manteision tymor hir i iechyd y genedl, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd a mynd â'r pwysau oddi ar filiau bwyd misol teuluoedd. Ym mis Medi 2008, ategodd yr undeb gwasanaeth cyhoeddus UNSAIN alwadau cynharach am brydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd yn ogystal â phob plentyn ysgol uwchradd mewn tlodi. Ymddengys fod y momentwm yn cynyddu.

Sylwadau terfynol

Yn 2006, tynnodd Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru sylw at natur ddyrys y meini prawf presennol ar gyfer prydau ysgol am ddim, mater stigma a diffyg defnydd ymysg y plant hynny sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, a'r gost gynyddol i'r teuluoedd hynny nad ydynt yn gymwys am gymorth. Ers hynny, gwnaed cynnydd da yng Nghymru yng nghyswllt hyrwyddo bwyta'n iach a chodi ansawdd y prydau ysgol a gynigir. Serch hynny, mae pryderon yn parhau na fydd pob plentyn a pherson ifanc yn medru manteisio o'r newidiadau hyn oherwydd y gost uchel. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ymrwymiad clir i fynd i'r afael â thlodi plant, er bod yr heriau ariannol sy'n wynebu llawer o blant a theuluoedd oherwydd cost prydau ysgol yn parhau.

Cyfeiriadau

Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru (2006) Cost Addysg – Plant yng Nghymru: Caerdydd
http://www.dileutlodiplantcymru.org.uk

Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd(2008) New £20m Free School Meals Pilot – datganiad i'r wasg 24 Medi 2008
http://www.dcsf.gov.uk/pns/DisplayPN.cgi?pn_id=2008_0212

Llywodraeth yr Alban (2008) Free school meals – datganiad i'r wasg 2 Hydref 2008
http://www.scotland.gov.uk/News/Releases/2008/10/02082551

Jane MacLardie, Chris Martin, Lorraine Murray a Kate Sewel (2008) Evaluation of the Free School Meals Trial for P1 to P3 Pupils – cyhoeddiad ar y we yn unig
http://www.scotland.gov.uk/Publications/2008/08/29114033/0

Yr Athro Derek Colquhoun, Nigel Wright, Jo Pike a Lisa Gatenby (2008) Evaluation of 'Eat Well, Do Well': Kingston upon Hull's School Meal Initiative – Prifysgol Hull**:**
http://www.hull.ac.uk/ifl-research/finalreport.pdf

GMB (2008) - GMB Urges Government To Introduce Universal Free Healthy School Meals In Primary Schools To Help End Health Inequality In UK - datganiad i'r wasg 12 Awst 2008
http://www.gmb.org.uk/Templates/PressItems.asp?NodeID=97375

UNSAIN (2008) - Free school meals urged – datganiad i'r wasg 24 Medi 2008
http://www.unison.org.uk/news/news_view.asp?did=4852
(Gweler hefyd wefan Unsain am wybodaeth ychwanegol, adroddiadau ac ati).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2008) Adroddiad Pwyllgor Mesur Arfaethedig ar Fwyta'n Iach yng Nghymru (mis Hydref) - **http://www.assemblywales.org/cr-ld7248-e.pdf**

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Blas am Oes
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/schools/appetiteforlife/?lang=cy

Ffynonellau eraill o wybodaeth

Grŵp Gweithredu Tlodi Plant – ymgyrch prydau ysgol am ddim i bawb
http://www.cpag.org.uk

Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru
Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru yn gynghrair o gonsyrn gyda ffocws ar ddileu tlodi plant yng Nghymru. Caiff yr rhwydwaith ei chydlynu a'i rheoli ar sail dydd-i-ddydd gan Plant yng Nghymru. Mae ei grŵp llywio yn cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o'r sectorau gwirfoddol a statudol ac mae gan y Rhwydwaith aelodaeth gefnogol gynyddol gan groestoriad eang o asiantaethau. Mae'r Rhwydwaith yn cefnogi gweledigaeth y Llywodraeth na ddylai unrhyw blentyn yng Nghymru fod yn byw mewn tlodi erbyn 2010, ac mae'n gweithio i gyflawni

- Dealltwriaeth gynyddol ymysg y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol o dlodi plant yng Nghymru
- Cefnogaeth gyhoeddus a phroffesiynol ar gyfer mesurau i ddileu tlodi plant
- Sicrhau fod polisïau ar waith ar bob lefel o lywodraeth (lleol, y Cynulliad a San Steffan) sy'n cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

www.dileutlodiplantcymru.org.uk

Mae **aelodau'r Grŵp Llywio** yn cynnwys

Plant yng Nghymru
Achub y Plant (Cymru)
Barnardo's Cymru
Gweithredu dros Blant
NSPCC Cymru
Gweithredu Ynni Cenedlaethol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Rainer - Communities that Care
Cyngor Ar Bopeth
Ymddiriedolaeth Frank Buttle
Shelter Cymru
Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
Llais Defnyddwyr Cymru
Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru
Fairbridge Cymru

Manylion pellach

Ar Papur Gwybodaeth hyn -

Sean O'Neill (Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru)
sean.oneill@childreninwales.org.uk
Ffon: Caerdydd 029 2034 2434

Ar gwaith y Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru

Anita Myfanwy (Swyddog Datblygu Tlodi Plant)
Anita.myfanwy@childreninwales.org.uk
Tel: Caernarfon 01286 677570

Cydlynyir Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru gan